CROESO CYMRU | *Y Diweddaraf am Fuddsoddiadau yn y Rhanbarthau*

# DE-DDWYRAIN

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop**
**European Regional Development Fund**

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:**
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig

**European Agricultural Fund for Rural Development:**
Europe Investing in Rural Areas

# C Y F L W Y N I A D

## Mae gan Croeso Cymru nifer o drefniadau cyllido a chynlluniau cymorth i helpu'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru i ddatblygu ei gynhyrchion.

Rydym yn cynnig cymorth cyfalaf a chymorth refeniw ar gyfer y sector cyhoeddus a'r sector preifat fel ei gilydd er mwyn datblygu cynhyrchion arloesol a fydd yn helpu i werthu Cymru mewn ffordd fwy cyfoes i'r DU a'r farchnad ryngwladol.

Mae'r daflen wybodaeth hon yn rhoi gwybodaeth lefel uchel ac yn cyfeirio at ddetholiad bach o'r cynhyrchion twristiaeth hynny yn eich ardal chi.

### Cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth neu gyngor, cysylltwch â:

**Cyllid Cyfalaf (TISS, TAIS a MSBF)**

Theresa Cartlidge – Dadansoddwr Rhanbarthol
theresa.cartlidge@llyw.cymru
+44 (0) 3000 615 710

**Cyllid Refeniw (RTEF a TPIF)**

Louisa Giles – Rheolwr Ymgysylltu Rhanbarthol
louisa.giles@llyw.cymru
+44 (0) 3000 616 012

### Dolenni at wefannau defnyddiol:

**Cyllid**
businesswales.gov.wales/tourism/cy/cyllid

**Y blynyddoedd thematig**
businesswales.gov.wales/tourism/cy/y-blynyddoedd-thematig

**Ffordd Cymru**
fforddcymru.cymru

**Croeso Cymru**
croeso.cymru – @croesocymru
traveltrade.visitwales.com – @visitwalestrade
visitwales.com/businessevents – @MeetInWales

**Parth Twristiaeth**
businesswales.gov.wales/tourism/cy – @croesocymrubus

**E-bostiwch newyddion am eich cynnyrch**
productnews@llyw.cymru

**E-bostiwch eich ymholiadau diwydiant**
quality.tourism@llyw.cymru

# TWRISTIAETH YN NE DDWYRAIN CYMRU: PRIF FFEITHIAU A FFIGURAU

**£2.132b**

Mae gwariant blynyddol gan dwristiaid ac ymwelwyr yn Ne Ddwyrain Cymru yn cyrraedd £2.132 biliwn – o gwmpas 38% o gyfanswm Cymru gyfan.

**5 i 1**

Mae ymwelwyr dros nos Prydeinig yn fwy niferus nag ymwelwyr tramor yn Ne Ddwyrain Cymru o tua 5 i 1, y gyfran uchaf o ymwelwyr tramor ymhlith rhanbarthau Cymru. Y marchnadoedd tramor pwysicaf i Dde Ddwyrain Cymru yw Ffrainc (12%), UDA (10%), Iwerddon (9%) a'r Almaen (8%).

**2.5m**

Mae De Ddwyrain Cymru yn denu yn flynyddol dros 2.5 miliwn o ymwelwyr Prydeinig sy'n aros dros nos a bron hanner miliwn pellach o ymwelwyr tramor. Mae 40% o ymwelwyr Prydeinig sy'n aros yn dod ar wyliau. Mae 26% o ymwelwyr dros nos Prydeinig â'r rhanbarth yn byw yn Llundain a De Ddwyrain Lloegr.

**37m**

Yn ogystal ag arosiadau dros nos, mae De Ddwyrain Cymru yn denu 37 miliwn o ymweliadau dydd yn flynyddol, sy'n werth dros £1.5 biliwn y flwyddyn.

**2.51**

Mae hyd cyfartalog arosiadau yn Ne Ddwyrain Cymru yn fyr – ond 2.51 o nosweithiau – o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 3.50 o nosweithiau.

**59,400**

Mae 59,400 yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol mewn twristiaeth yn Ne Ddwyrain Cymru, sef 9% o'r holl gyflogaeth yn y De Ddwyrain a 45% o gyflogaeth mewn twristiaeth yng Nghymru gyfan.

---

**DS:** Mae'r ystadegau ar gyfer maint a gwerth twristiaeth yn gyfartaleddau blynyddol 2014-16 o Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr, Arolwg Ymweliadau Dydd Prydain Fawr ac Arolwg Teithwyr Rhyngwladol. Mae'r ffigurau cyflogaeth yn dod o Ystadegau Sectorau Blaenoriaethol Llywodraeth Cymru.

Am wybodaeth fanylach, dilynwch y ddolen i'n Taflenni Wybodaeth Rhanbarthol gov.wales/statistics-and-research/?topic=Tourism&skip=1&lang=cy

Rydym wedi llwyddo i gael rhagor o arian oddi wrth yr **Undeb Ewropeaidd** i ychwanegu at gyllideb gyfalaf Llywodraeth Cymru. Bydd yn caniatáu inni weithio mewn ffordd ragweithiol gyda'r sector preifat a'r sector cyhoeddus yn y rhanbarth i ddatblygu cynnyrch twristiaeth newydd o ansawdd uchel drwy'r rhaglenni a ganlyn.

Y rhaglen Cyrchfannau Denu Twristiaeth (TAD)

Cronfa Dyfodol yr Economi – Y Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (CDE-TISS)

Cronfa Fusnes Micro Bychan (MSBF)

Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth (TAIS)

# CYLLID CYFALAF

## Y rhaglen Cyrchfannau Denu Twristiaeth (TAD)

Nod y cynllun Cyrchfannau Denu Twristiaeth yw creu un ar ddeg o gyrchfannau "bythgofiadwy" ledled Cymru er mwyn creu proffil uwch i Gymru fel gwlad lle gall ymwelwyr hen a newydd fynd ar eu gwyliau. Bydd yn helpu i sicrhau twf o 10% yn y sector twristiaeth yng Nghymru erbyn 2020.

Mae'r cynllun Cyrchfannau Denu Twristiaeth, a gafodd sêl bendith Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) ym mis Mawrth 2016, yn cynnwys gwerth £8.2 miliwn o gyllid ar gyfer y De-ddwyrain o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Bydd y swm hwnnw'n sicrhau cyfanswm o £17.5 miliwn o fuddsoddiad.

Ar draws Cymru, mae cyfanswm o £27.7 miliwn yn dod o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a bydd y cyllid hwnnw'n sicrhau buddsoddiad o £62 miliwn.

Dyma rai o'r prosiectau yn ardal y De-ddwyrain sydd wedi cael cymorth:

### 01—Antur y Cymoedd (Rock UK Adventure Centres Ltd)

Ehangu ac adnewyddu'r ganolfan ddringo gan darparu llety en-suite ar gyfer 100 o breswylwyr, caffi newydd, man chwarae yn yr awyr agored a chyfleusterau ar gyfer gweithgareddau yn yr awyr agored.

### 02—Triongl Antur Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog (Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen)

Creu canolfan newydd i ymwelwyr ym Mhont-y-moel, gwella'r seilwaith a mynediad i adrannau o'r gamlas a'r dirwedd gyfagos i hwyluso gweithgareddau cerdded, beicio a chychod a darparu llety glampio a chanolfan ar gyfer gweithgareddau yn yr awyr agored yng Nghoedwig Cwmcarn.

### 03—Y Rhagen Fuddsoddi ym Mhorthcawl – Glannau (Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr)

Adeiladu canolfan â chaffi ar gyfer chwaraeon dŵr o bob math yn Rest Bay, adnewyddu ciosg yr harbwr i wella'r cyfleusterau ar gyfer defnyddwyr cychod, a darparu llwybrau beicio newydd sy'n cysylltu holl draethau Porthcawl â'i gilydd.

### 04—Y Ganolfan Forol, Porthcawl (Credu Charity Ltd)

Datblygu canolfan wyddoniaeth a darganfod forol newydd, cyfleusterau llesiant, caffi dysgu, bwyty ardderchog a lle i gynnal digwyddiadau.



04—



05—



06—

## Cronfa Dyfodol yr Economi – Y Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (CDE-TISS)

Mae Cronfa Dyfodol yr Economi – Y Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (EFF-TISS) ar gael i fusnesau mawr a chanolig sy'n cyflogi 50 neu ragor o weithwyr cyfwerth ag amser llawn. Cronfa fuddsoddi yw'r gronfa hon ac mae'n cynnig cyfuniad o gyllid ad-daladwy a chyllid nad oes angen ei ad-dalu. Mae'n cael ei thargedu at brosiectau yn y sector twristiaeth yng Nghymru sy'n gymwys i gael buddsoddiad cyfalaf ac sy'n cefnogi'n blaenoriaethau ym maes twristiaeth (a amlinellir yn y strategaeth dwristiaeth, Partneriaeth ar gyfer Twf) a strategaeth Ffyniant i Bawb Llywodraeth Cymru.

Gellir defnyddio cyllid o'r gronfa i uwchraddio cynnyrch o ansawdd uchel sy'n bodoli eisoes neu i greu cynnyrch newydd o'r fath pan fo bwlch yn y farchnad. Ystyrir rhoi cymorth a fydd yn amrywio o £25,000 i £500,000 ac, o bryd i'w gilydd, mwy na hynny mewn achosion eithriadol.

Ers mis Ebrill 2015, rydym wedi cynnig cyfanswm o £7.8 miliwn i 47 o ymgeiswyr ar draws Cymru drwy'r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth, gan sbarduno gwerth £44 miliwn o fuddsoddiad a chefnogi 698 o swyddi.

Dyma rai o'r prosiectau yn ardal y De-ddwyrain sydd wedi cael cymorth –

### 05—Hide at St Donats, Llanilltud Fawr

Creu llety cain o ansawdd uchel gan gynnwys cabanau clyd a chwt bugail ar Lwybr Arfordir Cymru.

### 06—Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru

Bydd gan Ganolfan Ryngwladol Cymru awditoriwm gyda 1,500 o seddau, lle i hyd at 5,000 o bobl, 15 o ystafelloedd cyfarfod amlddefnydd, gofod o 26,000 metr sgwâr a bydd un ardal yn cynnig 4,000 metr sgwâr o ofod heb bileri a chyda charped. Bydd yn agor ym mis Gorffennaf 2019 a hon fydd Canolfan Gynhadledda Ryngwladol gyntaf erioed Cymru. Fe'i lleolir oddi ar yr M4, ac mae wedi'i hamgylchu gan goetir ar safle Gwesty'r Celtic Manor. Bydd y ganolfan newydd hon yn croesawu ymwelwyr rhyngwladol a chenedlaethol i Gymru.

## Cronfa Fusnes Micro Bychan (MSBF)

Mae'r Gronfa Busnesau Micro a Bychan (MSBF) ar gael i fusnesau micro a bach sy'n cyflogi llai na 50 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn ac sydd â throsiant neu fantolen o lai na €10 miliwn. Cronfa buddsoddiad cyfalaf yw hon a gefnogir drwy Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Fe'i hariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a chan Lywodraeth Cymru ac mae'n targedu prosiectau sy'n cefnogi amcanion ein blaenoriaethau ar gyfer twristiaeth (a amlinellir yn y strategaeth dwristiaeth, Partneriaeth ar gyfer Twf) ac amcanion y rhaglen Datblygu Gwledig.

Gellir defnyddio'r cyllid i uwchraddio cynnyrch o ansawdd uchel sy'n bodoli eisoes neu i greu cynnyrch newydd o'r fath pan fo bwlch yn y farchnad. Ystyrir cymorth yn amrywio o £25,000 i £500,000. O dan amgylchiadau eithriadol, mae'n bosibl y byddwn yn gallu ystyried cynnig llai na hynny.

Ers mis Hydref 2017, rydym wedi cynnig cyllid o dan y Gronfa hon i 18 o ymgeiswyr ledled Cymru. Cynigiwyd cyfanswm o £1.9 miliwn, sydd wedi denu buddsoddiad o £5.9 miliwn ac wedi cefnogi 213 o swyddi.

Dyma rai o'r prosiectau yn ardal y De-ddwyrain sydd wedi cael cymorth:

### 07—Neuadd Llechwen, ger Pontypridd

Uwchraddio ac ehangu'r gwesty 20 ystafell wely sy'n blasty o'r 17eg ganrif a chreu gwesty 4* â 46 o ystafelloedd gwely a champfa fach a chyfleusterau sba.


07—

### 08—Bwyty Cobbles, Aberogwr

Ehangu'r bwyty rhagorol hwn sydd mewn ysgubor restredig gradd II yn dyddio o'r 15fed ganrif ar Lwybr Arfordir Cymru yn Aberogwr fel y gall gynnig lle ar gyfer 52 o bobl yn y bwyty/bar gyda'r hwyr a fydd yn mwynhau awyrgylch arbennig a bwyd a diod tymhorol a gynhyrchir yn lleol. Bydd yn gaffi yn ystod y dydd.

## Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth (TAIS)

Mae Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth (TAIS) ar gael i sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector ac i sefydliadau dielw. Cronfa buddsoddiad cyfalaf yw hon a gefnogir drwy Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Fe'i hariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a chan Lywodraeth Cymru ac mae'n targedu prosiectau sy'n helpu i ddatblygu seilwaith twristiaeth ar raddfa fach. Ystyrir rhoi cymorth yn amrywio o £25,000 i £128,000. Y terfyn uchaf o ran cyfanswm y gwariant cymwys ar brosiect yw £160,000.

Arweiniodd cylch cyllido cyntaf y Cynllun hwn (2017) at 23 o gynigion grant i awdurdodau lleol a sefydliadau yn y trydydd sector ledled Cymru a chynigiwyd cyfanswm o £2.2 miliwn. Yn yr ail gyfnod o gyllid (2018) gwahoddwyd ceisiadau ar gyfer cronfa o £1.7 miliwn (mae'r cyfnod bellach ar gau). Gwneir penderfyniadau erbyn diwedd yr hydref.



Dyma rai o'r prosiectau yn ardal y De-ddwyrain sydd wedi cael cymorth:

**09—Llwybrau Cerdded a Beicio (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili)**

Creu rhagor o lwybrau cerdded a beicio a gwella'r rhai sy'n bodoli eisoes, darparu arwyddion a byrddau dehongli a chreu awyrgylch neilltuol a chroesawgar yn Fforest Cwmcarn.

**10—Maes Parcio ac Arwyddion yng Nghwm Clydach (Cyngor Sir Fynwy)**

Cefnogi potensial y Cwm fel adnodd twristiaeth ddiwylliannol, gan greu Porth ar gyfer ymwelwyr a'r trigolion lleol er mwyn iddynt fedru mynd i ben dwyreiniol y Cwm.

**11—Bae Dwn-rhefn (Cyngor Bro Morgannwg)**

Adnewyddu'r maes parcio a'r toiledau, uwchraddio'r seilwaith i ymwelwyr er mwyn helpu i wella'r apêl i ymwelwyr.



Mae'n rhaglenni refeniw yn helpu'r sector cyhoeddus a'r sector preifat fel ei gilydd i hyrwyddo ac i ddatblygu cyrchfannau unigryw o ansawdd uchel i ymwelwyr drwy eu hannog i gydweithio mwy mewn modd sy'n cyd-fynd â'n blynyddoedd thematig a **Ffordd Cymru**.

Cronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol (RTEF)

Cronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth (TPIF)

# C Y L L I D R E F E N I W

### Cronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol (RTEF)

Cronfa refeniw yw'r Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol (RTEF) a gefnogir drwy Raglen Datblygu Gwledig Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020, ac a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

Diben y Gronfa yw:

- —cyfrannu at daro'r targed twf o 10% a nodwyd yn 'Partneriaeth ar gyfer Twf': y strategaeth dwristiaeth 2013–2020
- —hyrwyddo a datblygu cyrchfannau nodedig, o ansawdd uchel drwy roi eu cynlluniau rheoli cyrchfannau ar waith
- —galluogi cyrchfannau i sicrhau'r manteision mwyaf posibl drwy gyd-fynd â'r blynyddoedd thematig a arweinir gan y cynnyrch a thrwy gyd-fynd â Menter Ffordd Cymru

Ers 2015, drwy'r Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol (RTEF), rydym wedi cefnogi 65 o brosiectau ledled Cymru a oedd yn werth cyfanswm o £3.5 miliwn.


Yn ne ddwyrain Cymru mae hyn yn cyfateb i 25 o brosiectau gwerth cyfanswm o £1.2 miliwn.

Dyma rai o'r prosiectau yn ardal y De-ddwyrain sydd wedi cael cymorth:

### 09—Y Diwydiant Teithio ac Atyniadau yn y Brifddinas-Ranbarth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont at Ogwr)

Codi proffil y Brifddinas-ranbarth drwy weithgareddau wedi'u targedu at y diwydiant teithio a defnyddwyr, gan wneud hynny drwy farchnata cyrchfannau mewn ffordd integredig. Datblygu perthynas waith agosach â




gweithredwyr teithiau (grwpiau/coetsis) er mwyn datblygu eu pecynnau a chynyddu nifer yr ymwelwyr a gwariant yn y rhanbarth. Mae yna ymgyrch hefyd sy'n ymwneud ag atyniadau i ymwelwyr dydd ac mae'r ymgyrch honno'n gweithio gyda marchnadoedd y diwydiant teithio a defnyddwyr.

### 10—Dinosoriaid ar grwydr (Amgueddfa Cymru)

Digwyddiad arloesol sydd wedi ennill gwobrau ac sy'n rhoi gogwydd newydd ar raglen Blwyddyn Chwedlau'r Amgueddfa, gyda Dracoraptor, y dinosor eiconig o Gymru, yn ganolbwynt i'r cyfan. Roedd y prosiect yn denu ymwelwyr i Amgueddfa Cymru, Caerdydd i weld yr arddangosfa ac roedd hefyd yn hyrwyddo Caerdydd a De Cymru fel cyrchfan diwylliannol. Roedd gosodiadau i'w gweld ledled y ddinas, a chyrhaeddwyd pen llanw wrth i'r 'dinosor ar grwydr' ddringo allan o Amgueddfa Cymru, Caerdydd.



12—




11—

### 11—Gŵyl Gwrthryfel Merthyr Tudful (Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful)

Nod y prosiect hwn yw ehangu'r ŵyl bresennol, Gŵyl Gwrthryfel Merthyr, i hybu ymwybyddiaeth ehangach o'r cyrchfan a datblygu bri Merthyr Tudful fel cyrchfan bywiog sy'n prysur ddatblygu. Y nod oedd creu elfen ymylol i'r Ŵyl a defnyddio rhagor o leoliadau ledled y dref.

### 12—Gŵyl Afon Dyffryn Gwy (Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy)

Prif nod y prosiect yw creu gwaddol o ddeunyddiau marchnata creadigol ar gyfer digwyddiadau a gynhelir yn y dyfodol yn rhan o Ŵyl yr Afon. Y nod yw hyrwyddio tirwedd a harddwch yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn Nyffryn Gwy. Daeth dros 32,000 o ymwelwyr i'r Ŵyl ac mae'r prosiect yn cynnwys cynllun busnes chwe blynedd ar gyfer datblygu'r Ŵyl yn y tymor hir.

## Cronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth (TPIF)

Cronfa refeniw yw'r Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth (TPIF) a gefnogir drwy Raglen Datblygu Gwledig Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020, ac a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

Pwrpas y Gronfa yw gweithio gyda phartneriaid ledled Cymru:

- —i daro'r targed o 10% o dwf a nodir yn Partneriaeth ar Gyfer Twf 2013–2020 – y strategaeth dwristiaeth
- —i annog mwy o gydweithio rhwng consortia, partneriaethau a grwpiau twristiaeth
- —i ddatblygu a gwella'r cynnyrch a gynigir i ymwelwyr, er lles y sector twristiaeth achymunedau lleol
- —i helpu'r economi dwristiaeth i dyfu mewn ffordd gynaliadwy.

Ers 2015, drwy'r Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth (TPIF), rydym wedi cefnogi 69 o brosiectau ledled Cymru a oedd yn werth cyfanswm o £2.6 miliwn.

Yn ne ddwyrain Cymru mae hyn yn cyfateb i 13 o brosiectau gwerth cyfanswm o £620,296.





14—


15—

Dyma rai o'r prosiectau yn ardal y De-ddwyrain sydd wedi cael cymorth:

### 13—Yr Injan Ddynol (Taith yr Injan Ddynol yng Nghymru)

Pyped mecanyddol mawr o löwr sy'n codi i daldra o 10.5 metr pan fo rhywun yn canu iddo. Ymwelodd yr Injan Ddynol â phum safle treftadaeth ddiwydiannol yn y De ym mis Ebrill 2018 ac fe'i datblygwyd er mwyn dathlu'r cymeriad chwedlonol a wnaeth Gymru yn Genedl Ddiwydiannol Gyntaf y byd. Roedd hefyd yn rhoi llais byd-eang i'r traddodiad canu bendigedig sydd gennym yng Nghymru. Bu i dros 40,000 o bobl brynu tocynnau neu fynd i ddigwyddiadau a gorymdeithiau rhad ac am ddim.

### 14—Gŵyl Cwrw a Seidr y Cwrt (Plantpot Ltd)

Digwyddiad i hyrwyddo bwyd a diod o Gymru ar gyfer 30,000 o ymwelwyr yng nghanol Llundain. Roedd y digwyddiad yn dathlu cynhyrchwyr a chynnyrch Cymru gan annog y gynulleidfa yn Llundain a'r gynulleidfa ryngwladol i ymweld â Chymru yn y dyfodol. Y nod oedd manteisio ar fri Green Man a defnyddio ymgyrch farchnata wedi'i thargedu i ddenu ymwelwyr o'r DU ac Ewrop.

### 15—Cymru Ryfeddol a Chyfareddol (Llenyddiaeth Cymru)

Roedd y prosiect hwn yn dathlu Blwyddyn Chwedlau a Blwyddyn y Môr Croeso Cymru. Roedd yn dogfennu taith i safleoedd o amgylch Cymru sy'n gysylltiedig â mythau a chwedlau Cymru. Roedd y cynnwys clyweledol yn bwydo i mewn i blatfform digidol Gwlad y Chwedlau. Mae paentiad eiconig a ysbrydolwyd gan y Mabinogi gan yr artist byd-enwog Pete Fowler i'w weld ar y Tŵr Dŵr yng Ngorsaf Reilffordd Caerdydd Canolog. Mae'r Tŵr hwnnw, sy'n dyddio o'r 1930au, yn 50 troedfedd o uchder ac yn adeilad rhestredig Gradd II.




16—

16—**Darganfod Lleisiau Cymru (Canolfan Mileniwm Cymru)**
Prosiect ar y cyd rhwng Canolfan Mileniwm Cymru a Lexicon Learning i greu profiad diwylliannol eithriadol gan ddefnyddio rhith-wirionedd i arddangos y doniau cerddorol a lleisiol anhygoel sy’n ffynnu yn niwylliant cyfoes Cymru. O ganu corawl i gerddoriaeth roc, rydym yn gobeithio adrodd hanes lleisiau sy’n adeiladu ar y traddodiadau cenedlaethol sydd wedi creu’r tirwedd ddiwylliannol.

OGL WG35649 / © Hawlfraint y Goron 2018